Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## MyDentist, Mill Lane, Llanelli
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
## Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad




ISBN Digidol 978-1-83504-102-4
© Hawlfraint y Goron 2023

Ar y cyfan, gwelsom fod MyDentist, Mill Lane, Llanelli yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol a'u bod yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Mill Lane, Llanelli, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 27 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod MyDentist, Mill Lane, Llanelli yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd garedig, gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn, yn seiliedig ar adborth a sylwadau
- Roedd amgylchedd y practis yn llachar, yn lân ac mewn cyflwr da
- Mae Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael i'r cleifion
- Trefniadau cynhwysfawr ar gyfer cynllunio triniaeth ar gyfer pob claf.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Defnyddio'r wybodaeth o adborth gan gleifion i grynhoi themâu a rhoi ffordd o rannu'r wybodaeth honno â'r cleifion ar waith
- Nodi manylion am unrhyw gyngor ar roi'r gorau i ysmygu yng nghofnodion y cleifion pan gaiff ei roi
- Nodi dewis iaith cleifion yn eu cofnodion.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

***"Mae pawb yn barod iawn i helpu"***

***"Mae'r staff yn neis."***

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau diogel ac effeithiol yr oedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yr oedd y cleifion yn ei gweld yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl i'r staff a'r cleifion yn y ddeintyddfa.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da. Roedd y deintyddfeydd, yr ystafell ddihalogi ac ardal y dderbynfa o safon dda.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y cyfarpar yn y practis mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr
- Roedd gan y practis weithdrefnau a chyfarpar diogel a phriodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ychwanegu rhagor o fanylion at gofnodion y cleifion yn enwedig mewn perthynas â rhoi'r gorau i ysmygu ac amser / dos archwiliadau pelydr-X
-

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn amlwg yn MyDentist, Mill Lane. Gwelsom grŵp o staff a oedd yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion

Roedd ystod eang o gyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i'r staff a gwnaethant gadarnhau fod y rheolwyr yn annog hyfforddiant ychwanegol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd
- Roedd aelodau'r tîm yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau bod eu cleifion yn cael gofal o safon uchel.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella:

- Gweithredu system i ailwirio statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff yn rheolaidd.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

